**Eisteddfod yr Urdd 2026**
**Beirniadaeth a Chanlyniad Cystadleuaeth 387**
**Anni Llŷn**

**Cyflwyno Sgript Wreiddiol Bl.6 ac iau**

Dim ond 7 sgript ddaeth i law yn y gystadleuaeth sy'n nifer siomedig, ond roed gan pob sgript rhywbeth i'w gynnig yn y gystadlaeuaeth. Y pwyntiau pwysig i bawb yw:

- Dysgwch sut i osod sgript yn glir a thaclus gan wahaniaethu'n glir rhwng y cyfarwyddiadau a'r ddeialog. Gallwch ddefnyddio *italics* ar y cyfarwyddiadau er enghraifft.
- Gyda sgriptiau byr fel rhain, nid oes angen mwy na rhyw 4 cymeriad.
- Cofiwch roi ychydig o wybodaeth am eich cymeriadau wrth eu rhestru.
- Cofiwch roi gwybodaeth ar ddechrau pob golygfa e.e. ble mae'r olygfa'n digwydd a beth yw'r sefyllfa.

Roedd y goreuon yn y gystaleuaeth wedi gwneud ymdrech dda ar y pwyntiau uchod ac wedi ceisio cyflwyno teimlad ac emosiwn eu cymeriadau. Roeddent wedi llwyddo i gyflwyno safbwyntiau gwahanol i gyfleu'r gwrthdaro hefyd.

Dyma air am y tri ddaeth i'r brig.

Defnyddiodd **Llanwenog** ddychmyg arbennig yn ysgript *Halibalw y Sioe* drwy ddod a lleisiau'r defaid i'r sgript. Roedd manylion da iawn yn y cyfarwyddiadau ac roedd yr iaith yn safonnol. Roedd gan yr awdur wybodaeth dda o ran termau sgriptio ar gyfer y teledu gan awgrymu siots camera a chynnwys troslais. Roedd gwybodaeth a phrofiad yr awdur am y maes dan sylw, sef mynd i ddangos defaid mewn sioe, yn cael ei ddefnyddio'n gampus.

Roedd **Twm,** yn ei sgript *Buddugoliaeth,* wedi cyflwyno cymeriadau cofiadwy gan amlygu eu personoliaethau drwy'r ddeialog yn dda. Gan ddefnyddio hynny i greu'r addfwynder a'r gwrthdaro. Roedd y sgript yn syml a chywir gan gynnig golygfa wedi gêm bêl-droed. Roedd hi'n amlwg fod yr awdur wedi dewis sefyllfa yr oedd yn gyfarwydd â hi ac roedd y cymeriadau'n fyw iawn i'r darllenydd.

Roedd **Muffin** wedi dewis ysgrifennu am ras redeg yn y Mabolgampau. Hoffwn pe tai'r awdur wedi rhoi mymryn mwy o gyfarwyddiadau ac efallai ystyried beth oedd yn bwysig ym mhob golygfa a gwneud yn siwr fod hynny'n glir yn y ddeialog. Ond roeddwn yn hoff iawn o iaith yr awdur a'i ymdrech i gynnwys idiomau. Roedd yma uchelgais hefyd i adeiladu'r tensiwn drwy gymeriad ansicr Casi.

Llongyfarchiadau i chi gyd ar eich ymdrechion.

Dyma'r canlyniad:

**1af – Llanwenog**
**2il – Twm**
**3ydd – Muffin**